# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Tachwedd 2023

Amser: 13.31 - 15.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13549

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)401 – Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)412 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)396 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 3.2 SL(6)397 – Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig  gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

### 4.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Cyfarfod o’r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a’r UE

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r ohebiaeth gan Weinidog yr Economi.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Craffu ar waith y Gweinidogion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.2 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy  Weinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

### 5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig  gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gweithgaredd Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft arall yn ei gyfarfod nesaf.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol. Hefyd nododd y Pwyllgor yn ffurfiol y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

## 9 Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft diwygiedig a chytunodd arno, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 10 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig: Ystyried papur trafod

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur trafod a chytunodd i ysgrifennu at bwyllgorau Senedd y DU, i ysgrifennu at Lywodraeth y DU, ac i ailedrych ar y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Ymchwiliad Llywodraethiant y DU-UE: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft diwygiedig a chytunodd arno.